Cymunedau yn Gyntaf a chyllidebau iechyd
18 Chwefror 2014

Rwy'n ysgrifennu atoch chi i ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 31 Ionawr 2014 (a anfonwyd mewn amlen wedi'i chyfeirio at Archwilydd Cyffredinol Cymru), a dderbyniwyd ar 3 Chwefror 2014, yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

(i) "paramedrau eich ymchwiliad i'r penderfyniad i gynnwys pentref Talacre yn y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf"

(ii) "gwahanol baramedrau ar gyfer cynnwys yn y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf";

(iii) "y symiau penodol a dynnwyd o'r Gyllideb Iechyd pan oedd Ms Hart yn Weinidog Iechyd";

(iv) "symiau'r Gyllideb Iechyd ar gyfer y 2 flynedd cyn i Ms Hart gael ei phenodi'n Weinidog Iechyd";

(v) "cyfanswm y symiau ariannol ar gyfer pob blwyddyn yr oedd Ms Hart yn Weinidog Iechyd";

(vi) "cyllidebau blynyddol y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru ers iddi adael y swydd";

(vii) "cyllidebau gwariant blynyddol yr adran y symudodd Ms Hart iddi ar ôl gadael y Gwasanaeth Iechyd, hynny yw Gweinidog yr Economi , Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ar gyfer y 2 flynedd cyn iddi ddechrau yn yr adran hon a'r tair blynedd ar ôl hynny";

(viii) "y gwariant blynyddol ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers ei sefydlu yn 2002 hyd heddiw";

(ix) "gwariant y Cynllun Cymunedau yn Gyntaf ar Goedmor a Thalacre o 2002 hyd heddiw."

(Rwyf wedi ychwanegu'r rhifau er hwylustod.)

Credaf fod eich cais yn flinderus o dan adran 14(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, felly nid oes rhaid i mi gydymffurfio â'ch cais.

Credaf fod eich cais yn flinderus gan ei fod yn barhad o'r ohebiaeth afresymol yn ymwneud â materion i chi eu codi'n wreiddiol gyda'r archwilydd penodedig ar gyfer Cyngor Sir y Fflint yn 2005, fel yr amlinellwyd yn y llythyr a anfonodd Ian Hughes atoch chi ar 12 Chwefror 2014.

Os hoffech wneud cwyn ynghylch y ffordd rwyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi anfon e-bost neu ysgrifennu at Ian Hughes.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Swydd Caer SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi dilyn ein gweithdrefnau cwyno cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: http://www.informationcommissioner.gov.uk

Yn gywir,

Ian Phillips
Uwch Arbenigwr Polisi a Chydymffurfiaeth